Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Caru·Love Ceredigion

| Eitem / Item | Dyddiad / Date | |
|---|---|---|
| | 15-09-2025 | |
| Teitl / Title | | Er / Ar gyfer |
| Strwythur Rhanbarthol y BGC – Papur Opsiynau | | *Trafodaeth a chytundeb* |
| Crynodeb o'r Materion / Summary of Issues | | |

**Cefndir**
Yn ei gyfarfod ar 03-03-25, gofynnodd BGC Ceredigion i swyddogion cymorth drafod gyda chydweithwyr yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro beth fyddai'r posibiliadau i gryfhau strwythur a gwaith y BGC ar draws y Rhanbarth.

Cyfarfu swyddogion o Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys yn y lle cyntaf ond roedd Powys o'r farn na fyddai angen eu cynnwys yn y trafodaethau hyn. Er hynny, mae ganddynt ddiddordeb mewn cydweithio gyda rhanbarth De-orllewin Cymru ar waith thematig penodol yn y dyfodol.

Mae'r papur opsiynau, yn Atodiad 1, wedi'i lywio gan ymchwil i strwythurau BGC sydd ar waith ledled Cymru, ac o drafodaethau gyda swyddogion cymorth eraill y BGC.  Y gobaith yw y bydd y papur yn cefnogi trafodaeth o fewn pob BGC a rhwng y tri bwrdd.

**Yr Opsiynau**
Mae'r papur opsiynau hwn yn amlinellu pedwar opsiwn posibl ynghylch sut y gall y BGC ddewis gweithredu yn y dyfodol. Y rhain yw:

**Opsiwn 1** Cynnal trefniadau cyfredol
**Opsiwn 2** Sefydlu uno ffurfiol rhwng y tri BGC
**Opsiwn 3** Sefydlu cydweithrediad ffurfiol rhwng y tri BGC
**Opsiwn 4** Sefydlu uno neu gydweithrediad, rhwng dau BGC yn unig

Mae pob opsiwn yn cael ei gyflwyno gyda'i fanteision, risgiau ac ystyriaethau gweinyddol cysylltiedig, er mwyn cefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus gan y BGC.

Ar ôl ymchwilio i'r sefyllfa ledled Cymru, mae rhywfaint o hyblygrwydd yn bodoli o ran sut mae BGC yn cael eu strwythuro a sut mae Cynlluniau Llesiant Lleol yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn sawl dehongliad a dulliau gwahanol, wedi'u teilwra i weddu i anghenion lleol a rhanbarthol. Felly, mae'n bwysig nodi y gellir cyflwyno hyblygrwydd i unrhyw opsiwn a fyddai'n cael ei symud ymlaen yn y pen draw.

| |
|---|
| Gwahoddir y tri bwrdd i ystyried yr opsiynau a nodir yn y papur a dod i farn ar opsiwn y maent yn credu sy'n gweddu orau i'r ffordd maen nhw'n dymuno gweithredu yn y dyfodol. |
| Goblygiadau Ariannol / Financial Implications |
| Nid ydynt yn hysbys yn llawn ar hyn o bryd. Bydd hyn yn dibynnu ar y penderfyniad a wneir gan Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. |
| Argymhellion / Recommendations |
| I'r BGC i:<br>1. Ystyried a thrafod y papur opsiynau.<br>2. I gytuno ar opsiwn cychwynnol a ffefrir.<br>3. Gofyn i bob aelod o'r BGC gymryd yr opsiwn y cytunwyd arno gan y bwrdd yn ôl i'w sefydliadau unigol i'w gymeradwyo os oes angen* ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y BGC.<br>4. Caniatáu i swyddogion cymorth rannu'r opsiwn cychwynnol y cytunwyd arno gan y bwrdd gyda chydweithwyr yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.<br><br>*(efallai y bydd yn ofynnol gan aelodau statudol yn unig)* |
| Atodiadau / Attachments |
| Atodiad 1 – Strwythur PSB Rhanbarthol – Papur Opsiynau |
| Swyddog Adrodd / Reporting Officer |
| |